

Castell Caerdydd

Taith a Gweithdy Nadolig Fictoraidd

Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy yn Ystafell y Wraig Cadw Tŷ (Ystafell 1) yn y Ganolfan Addysg.

Disgrifiad

Ceir taith o'r Castell, sydd wedi'i addurno'n hardd ar gyfer y Nadolig, ac yna gweithdy yn edrych ar draddodiadau Fictoraidd. Gall plant wneud cerdyn Fictoraidd go iawn ac addurniadau Nadolig i fynd adref gyda nhw.

Bydd y gweithdy yn dechrau gyda sgwrs fer ar faint o'n traddodiadau Nadolig heddiw sydd wedi'u dylanwadu gan arferion Nadolig oes Fictoria. Bydd disgyblion yn gwneud addurniadau ac yn defnyddio'r papurau dros ben i wneud eu fersiwn o gerdyn Nadolig Fictoraidd. Cynhelir y sesiwn hon gan y Swyddog Addysg sydd wedi pasio prawf CRB neu un o dywysyddion y Castell

Taith Dywys o'r Castell

Mae taith dywys o'r Tŷ wedi'i chynnwys ym mhrys yr ymweliad. Bydd y daith yn mynd â'r plant i rai o'r ystafelloedd mwyaf godidog sy'n dyddio o'r cyfnod Fictoraidd. Bydd yr ystafelloedd wedi'u haddurno ar gyfer y Nadolig gyda choed a phlanhigion gwyrdd yn ychwanegu at ysblander yr ystafelloedd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu gweledigaeth y pensaer o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych er bod yr addurniadau Nadolig yn tarddu'n bennaf o oes Fictoria

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd taith dywys o'r Castell yn para tua 50 munud. Gall athrawon sydd â phlant iau ddewis taith fyrrach (tua 30 munud) sy'n hepgor y grisiau troellog i ben un o'r tyrau.

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am darddiad nifer o'n harferion Nadoligaidd gan gynnwys coed Nadolig, cardiau, bwyd ac addurniadau
- ◆ Trafod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng Nadolig oes Fictoria a Nadolig heddiw
- ◆ Dysgu sut i wneud addurniadau syml gan ddefnyddio cynnyrch naturiol a phaent
- ◆ Dysgu defnyddio deunyddiau crefft yn ddarbodus gyda gofal
- ◆ Dysgu gwneud cerdyn Nadolig replica gan ddefnyddio copïau o gardiau gwreiddiol, sgrapiau a les papur
- ◆ Defnyddio sgiliau creadigol i sicrhau cerdyn wedi'i gynhyrchu'n unigol a gofalus
- ◆ Dysgu sut i weithio gyda gofal ac amynedd i sicrhau safon uchel o gyflwyniad yn eu gwaith

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Y Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
 - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
 - Datblygiad Creadigol (Dathliadau)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
 - Bywydau dynion, merched a phlant arwyddocaol a dynnwyd o hanes Prydain a'r byd ehangach (er enghraifft artistiaid, peirianwyr, fforwyr, dyfeiswyr, arloeswyr, rheolwyr, saint, gwyddonwyr)
 - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
 - Newidiadau i fywydau bob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Hanes)
 - Dealltwriaeth a Gwneud (Celf a Dylunio)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066
 - Ymchwilio i wneud celf, crefft a dylunio. Gwybodaeth a Dealltwriaeth (Celf a Dylunio)
- ◆ **Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
 - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant

- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.